# Rheolau a Manylion Cystadlaethau Cerdd Dant

1 Mae'r Rheolau Cyffredinol ym mlaen y Rhestr Testunau hefyd yn berthnasol i'r adran hon.

2 Dilynwch drefniant pob cainc a nodir yn y Rhestr Testunau. Gellir ychwanegu triniaeth offerynnol â/neu leisiol at y gainc, ond ni chaniateir i unrhyw offeryn heblaw'r delyn/telynau swyddogol chwarae'r trefniant llawn.

3 Rhaid i holl gystadleuwyr yr adran Cerdd Dant dderbyn gwasanaeth telynorion swyddogol yr Eisteddfodau Cylch, Sir/Rhanbarth a'r Genedlaethol, yn y rhagbrofion ac ar y llwyfan (gweler eithriad yng nghystadlaethau rhif 81, 91, 92, 93 a 94 rheol 4). Dylid gwneud pob ymdrech i sicrhau gwasanaeth telynor i'r Eisteddfodau hyn, ond pe cyfyd anhawster fe ganiateir defnyddio piano. Rhaid sicrhau y bydd pob cystadleuydd yn perfformio dan yr un amodau ym mhob achos. h.y. un cyfeilydd swyddogol ar gyfer y cystadleuaeth fel y nodwyd uchod.

4 Yng nghystadlaethau 81, 91, 92, 93 a 94, rhaid defnyddio dwy delyn yn y rhagbrofion ac ar y llwyfan. Gall yr ail delyn naill ai fod o ddewis y cystadleuydd a than 30 oed neu'r ail delynor swyddogol sydd â'i enw gyferbyn â'r gystadleuaeth.

5 Ystyrir y defnydd o delynor ychwanegol at y ddwy delyn fel rhan o ensemble a rhaid iddynt, fel unrhyw offerynnwr arall a ddefnyddir fod o dan 30 oed. Mae'r nifer a nodir mewn grŵp yn cyfeirio at y nifer sy'n canu.

6 Os dymunir newid cyweirnod gwreiddiol y gainc, dylid cyfyngu'r newid i dôn a hanner o'r naill ochr i'r cyweirnod gwreiddiol.

7 Dylai'r datgeinydd a'r telynor sefydlu'r amseriad cyn dechrau canu.

8 Ni chaniateir cynorthwyo cystadleuydd mewn unrhyw fodd o'r llwyfan nac o'r gynulleidfa.

9 Cyfrifoldeb y cwmni/grŵp/parti yw sicrhau hawlfraint unrhyw gerddoriaeth sydd wedi ei gyhoeddi yn fasnachol.

10 Caniateir i 3 pharti gynrychioli'r Sir/Rhanbarth yng nghystadleuaeth rhif 94.

11 Mae canllawiau gosod ar gyfer cystadlaethau'r adran hon ar gael ar wefan Cymdeithas Cerdd Dant Cymru.

12 Penderfynwyd peidio nodi deulais/deusain, ond yn hytrach Parti/Côr yn unig (ar wahân i pan nodir Parti Unsain). Golyga hyn fod rhyddid i'r gosodwyr/ hyfforddwyr ddefnyddio cyfuniad o unsain, deulais, trillais ayyb fel y mynnant yn ôl eu gweledigaeth.